

## **Dewisiadau Llwybr Teithio Llesol Eglwys Brewys**

### **Adroddiad ymgynghorol 31 Awst 2021**

#### **Cyflwyniad**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion Cyngor Bro Morgannwg i adeiladu llwybr teithio llesol drwy Eglwys Brewys rhwng 30 Gorffennaf a 25 Awst 2021. Gofynnwyd i'r cyhoedd ddewis pa un o'r tri llwybr posibl yr hoffent eu gweld yn cael eu datblygu.

Nod y cynllun yw cynnig amgylchedd mwy diogel i gerddwyr ar briffyrdd a darparu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol, yn enwedig i ddefnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed a disgyblion ysgol. Bydd pa lwybr bynnag a ddatblygir i ddylunio manwl yn cysylltu â'r cyfleuster defnydd a rennir presennol ar hyd Ffordd Bro Tathan a bydd yn cysylltu â'r droedffordd/beicffordd a rennir sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd i Sain Tathan.

Cafwyd arian ar gyfer y cynllun hwn trwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.

#### **Gweithgareddau Ymgynghori**

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Llythyron i breswylwyr yng nghyffiniau'r cynllun (gan gynnwys rhif ffôn i bobl ei ffonio i drafod y cynllun)
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun (gan gynnwys rhif ffôn i bobl ei ffonio i drafod y cynllun)
- E-bost at randdeiliaid ac ymgynghoreion statudol
- Gwybodaeth ar wefan Teithio Llesol y Cyngor
- Postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol

Cynhaliwyd arolwg ar-lein i gofnodi ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd copïau papur o'r arolwg hefyd ar gael ar gais.

#### **Canlyniadau'r Ymgynghoriad**

Anfonwyd llythyron at 300 o dai yn y cyffiniau, hyrwyddwyd yr ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol, ac anfonwyd e-byst at randdeiliaid. Cawsom 53 o ymatebion drwy e-byst a'r arolwg. Dewisodd 85% o'r rhai a ddewisodd opsiwn llwybr a ffefrir opsiwn llwybr A.




## OPTION A: EGLWYS BREWIS, PROPOSED ACTIVE TRAVEL IMPROVEMENT

### BENEFITS

- Provides link between Llantwit-Major and St Athan
- Avoids conflict around properties
- Segregated from carriageway
- Direct route to destinations

### CONSIDERATIONS

- Lighting would need to be installed
- Potential tree removal





### Sylwadau yn yr Ymgynghoriad

Rhestrir y pryderon a godwyd a'r sylwadau a wnaed drwy'r arolwg isod, yn ogystal ag ymateb y Cyngor i bob un.

Sylw a dderbyniwyd	Ymateb y Cyngor
Wrth ddewis Llwybr A, mae angen gwahanu cerddwyr gryn dipyn o'r ffordd	Bydd cynllun y Llwybr yn dilyn Canllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2021, sy'n blaenoriaethu seilwaith teithio llesol gwahanedig.
Nid yw cyfeirio'r llwybr drwy ystâd dai breifat (yn unol â chynnig B ac C) yn briodol ac mae'n annheg ar breswylwyr. Yn ogystal, bydd angen i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr teithio llesol groesi'r ffordd sawl gwaith, sy'n effeithio ar eu diogelwch ar yr hyn sy'n ffordd gyflym, er gwaetha'r terfyn cyflymder o 30 mya. Byddai Cynnig A (gan ddefnyddio ochr 'gwerysill' y ffordd) yn golygu y gallai fod un llwybr diogel parhaus o Sain Tathan i Lanilltud heb fod angen nifer o groesfannau a lleihau'r effaith ar drigolion yr effeithiwyd eisoes arnynt yn sylweddol gan Aston Martin ac adeiladu'r ystâd dai newydd. Ni fyddwn am gael mwy o bobl yn cerdded ar yr ystâd (ac yn fy achos i, yn union heibio fy nhŷ). Rydym yn talu ffi cynnal a chadw fisol am diroedd yr ystâd, felly mae hyn yn ddigon i'n gwylltio. Rwy'n byw ar Heol Eglwys Brewys ac ar hyn o bryd mae lle rhwng fy ngardd flaen a'r brif ffordd a gwrych yn nodi'r ffin â'r ffordd sy'n ein hamddiffyn rhag y traffig a'r sŵn. Bydd dileu hyn yn ddinistriol i ni. Mae llawer o drigolion hefyd yn dibynnu ar y cilfannau ar Heol Eglwys Brewys ar gyfer parcio sy'n hanfodol mewn cymuned wledig heb ddigon o gysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus. Yn fy marn i, cynnig A yw'r unig opsiwn. Os dewisir cynnig A byddai'n wych pe gellid cyfeirio'r llwybr	Nodwyd yr holl sylwadau.

teithio llesol rywsut y tu ôl i'r llinell o goed fel na fydd angen cael gwared ar yr holl goed.	
Opsiw'n A yw'r dewis gorau gan na fydd yn ymyrryd â phalmentydd y preswylwyr tra'i fod yn cael ei adeiladu.	Nodwyd.
<p>Nid yw Llwybr B ac C yn opsiwn gan eu bod yn tresmasu ar ofod trigolion Ystâd Eglwys Brewys. Hefyd, nid y Cyngor sy'n cynnal a chadw'r llwybrau ond y preswylwyr.</p> <p>Mae annog beiciau i fynd drwy'r ystâd yn beryglus, er mai dim ond o gwmpas yr ymyl y mae'r llwybrau'n mynd.</p> <p>Oherwydd y nifer enfawr o dai sy'n cael eu hadeiladu yn Sain Tathan a chynigion i adeiladu mwy tuag at Lanilltud Fawr a ger Heol Silstwn, yna bydd llawer mwy o draffig felly rwy'n credu ei bod yn gwneud mwy o synnwyr i ddelio â'r ffyrdd.</p> <p>Hyd yn oed os ydych chi'n adeiladu llwybrau beiciau, yn aml mae'r beicwyr yn dal i ddefnyddio'r ffyrdd.</p>	<p>Mae'r cynllun yn cael ei ariannu drwy gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, felly ni allwn gwblhau gwaith ar y priffyrdd gyda'r cyllid hwn. Fodd bynnag, bydd eich sylwadau'n cael eu trosglwyddo i'r tîm Priffyrdd.</p> <p>O dan Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru 2021 (Llwybr Newydd) mae angen i ni flaenoriaethu dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth.</p> <div data-bbox="1050 775 1497 1014"> <p><b>The Sustainable Transport Hierarchy</b></p> </div>
Gallai llwybr cerdded/beicio gysylltu â'r ffordd fynediad newydd	Bydd pa bynnag opsiwn a ddatblygir yn cysylltu â Ffordd Bro Tathan a'r ffordd a rennir i Sain Tathan.
Ceisiwch gadw'r adegau pan mae'n rhaid i feicwyr groesi'r ffordd i gael aros ar lwybr beicio, i'r nifer leiaf posibl, gan fod hyn bron yn amhosibl os ydych yn ceisio beicio gyda phlant. Mae'r llwybr arfaethedig ar gyfer ffordd Sain Tathan yn gwneud i chi groesi'r ffordd mewn man allai fod yn beryglus ger y pentref	Wrth ddylunio'r llwybr terfynol, byddwn yn ei gadw mor uniongyrchol â phosibl.
Dwi'n gobeithio y bydd yn mynd ymlaen i Sain Tathan hefyd	Byddai'r llwybr yn cysylltu â throedffordd/beicffordd Sain Tathan sy'n cael ei hadeiladu yn y flwyddyn ariannol hon.
Bendigedig! Gwych! Pryd fyddwch chi'n dechrau? Byddai'n gwneud croesi'r ffordd o'r safle bws ar sgwâr Pinewood gymaint yn fwy diogel. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid ichi obeithio nad oes dim yn dod o oleuadau Aston Martin, gan na allwch weld dros/o amgylch y llystyfiant. Diolch	Byddwn yn ymgymryd â dyluniad cysyniad o'r llwybr a ffeirir y flwyddyn ariannol hon. Byddem wedyn yn gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dylunio ac adeiladu manwl mewn blynyddoedd i ddod.
Faint o darfu fydd ar draffig yn ystod y gwaith adeiladu?	Bydd cyn lleied â phosibl o darfu ar draffig.
Mae un cynnig yn cael gwared ar gilfannau. Byddai hyn yn golygu bod yn rhaid i'r ceir sy'n parcio yno ar hyn o bryd ddod o hyd i le arall i barcio.	<p>Bydd ymgynghoriad pellach ar y llwybr a ffeirir wrth i ddylunio y cynllun ddatblygu.</p> <p>O dan Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru 2021 (Llwybr Newydd) mae angen i ni flaenoriaethu dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth.</p>

	<p><b>The Sustainable Transport Hierarchy</b></p> <p>We will continue to make best use of existing transport infrastructure by maintaining and managing it well.</p> <p>We will also adapt it to a changing climate and upgrade it to support modal shift.</p> <p>Where we need new infrastructure, we will use the Sustainable Transport Hierarchy.</p> 
Byddai Llwybr A yn ei gwneud hi'n haws cadw ar un ochr i'r ffordd ac felly'n lleihau'r angen i groesi drosodd a gwneud damweiniau ceir yn llai tebygol.	Nodwyd.
Dim	Nid oedd angen ymateb.
Fel cymudwr dyddiol drwy Eglwys Brewys, dydw i ddim eisiau oedi, felly Llwybr A i mi.	Nodwyd.
Nid wyf yn cytuno y dylid ystyried y strydoedd presennol a'r ffyrdd pengaead fel llwybr arfaethedig newydd. Yn enwedig gydag ystadau tai newydd yn cael eu hadeiladu a fydd yn cynyddu traffig cerddwyr.	Nodwyd.
<p>Gyda'r tai ychwanegol sy'n cael eu hadeiladu yn yr ardal mae angen gwell strwythur ffordd.</p> <p>Edrychwch hefyd ar Boverton Rd i'r goleuadau traffig. Mae'r ffordd hon yn rhy gul ac nid oes ganddi lwybr i gerddwyr</p>	<p>Mae'r cynllun yn cael ei ariannu drwy gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, felly ni allwn gwblhau gwaith ar y priffyrdd gyda'r cyllid hwn. Fodd bynnag, bydd eich sylwadau'n cael eu trosglwyddo i'r tîm Priffyrdd.</p> <p>O dan Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru 2021 (Llwybr Newydd) mae angen i ni flaenoriaethu dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth.</p> 
Peidiwch â dinistrio cynefin naturiol yn ormodol neu o leiaf disodlwch nhw.	Fel rhan o ddyluniad y cynllun, byddai arolwg ecolegol yn cael ei gynnal. Byddai cyn lleied â phosibl o gynefinoedd naturiol yn cael eu dileu, a lle bo'n bosibl, byddai cynllun i ailblannu.
Bydd angen goleuo da.	Fel rhan o ddylunio manwl, byddai'r gofynion goleuo yn cael eu hystyried.
Byddai unrhyw un o'r 3 opsiwn yn welliant i wneud y llwybr yn fwy diogel i gerdded.	Nodwyd.
<p>1. Cwblhawyd y ffurflen hon gan Glerc y Cyngor ar ran Cyngor Cymuned Sain Tathan.</p> <p>2. Rhoddwyd ateb i C1 er mwyn cyflwyno'r ffurflen hon.</p>	Nid oedd angen ymateb.

Cafwyd damweiniau gyda cherbydau'n goryrru yn taro'r llwyni ar y tro tynn ger yr eglwys ar dir y Weinyddiaeth Amddiffyn. Gallai'r mathau hyn o ddamweiniau arwain at ganlyniadau llawer mwy difrifol os yw'r llwybr teithio llesol ar ochr ddeheuol y llwybr. Rwy'n dal i feddwl mai opsiwn A yw'r llwybr gorau, ond efallai bod angen i'r dyluniad ystyried y tro peryglus hwnnw (dw i ddim yn siŵr beth yw'r ateb gorau ond dw i'n meddwl am y posibilrwydd o arafu traffig / gorfodi cyflymder / rhwystr rhwng y ffordd a'r llwybr cerdded ar y tro neu symud aliniad y llwybr teithio llesol i ffwrdd o'r lôn gerbydau gyda llain ymyl eang yn gwahanu'r ddau ar y tro hwnnw - yn eithaf tebyg i'r hyn sydd ymhellach ymlaen tuag at Aston Martin.	Fel rhan o'r broses ddylunio fanwl byddwn yn edrych ar ddata damweiniau a chyflymder ac unrhyw gamau lliniaru y gellir eu rhoi ar waith i wneud y llwybr teithio llesol mor ddiogel â phosibl.
Byddai'n dda cysylltu o Lanilltud i Silstwn drwy'r llwybr hwn i gynnwys croesfan a reolir gan oleuadau traffig wrth yr heneb	Mae datblygu cysylltiadau â'r llwybr hwn ac oddi arno yn dibynnu ar gyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol a byddai angen ei ystyried fel cynllun ar wahân.
Nid yw'r cynlluniau presennol yn cynnwys reidwyr ceffylau sydd hefyd yn ddefnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed ac yn rhan o'r gymuned.	Nid yw mathau o reidio ceffylau yn cael eu hystyried yn fathau o deithio llesol gan mai anaml y maen nhw'n disodli taith car.
Mae Opsiwn B ac C yn union y tu allan i'n giât flaen a chae chwarae a byddai hyn, yn fy marn i, yn beryglus gan fod beiciau'n mynd yn gyflym a gallent achosi llawer o niwed i blant bach. Mae opsiwn A yn llawer llai ymwithiol ac mae ar wahân i fannau chwarae.	Nodwyd.
Menter wych	Nid oedd angen ymateb.
Menter dda	Nid oedd angen ymateb.
Opsiwn A yw'r mwyaf diogel o ystyried bod opsiynau eraill yn mynd yn uniongyrchol o flaen tai sy'n rhoi plant bach mewn perygl os ydynt yn chwarae y tu allan. Mae angen mynd i'r afael â hyn.	Nodwyd, a phe bai opsiynau B neu C yn cael eu datblygu; byddai diogelwch preswylwyr yn hollbwysig.
Dd/B	Dd/B
A fydd goleuadau ar hyd y llwybr hefyd?	Fel rhan o ddylunio manwl, byddai'r gofynion goleuo yn cael eu hystyried.
Dd/B	Dd/B
Doedd fy ffôn ddim yn gallu agor yr opsiynau felly wnes i ddim dewis ond mae'n wych eich bod yn gwneud hyn	Nid oedd angen ymateb. Gwiriwyd hyn a gellid agor opsiynau ar ddyfeisiau symudol eraill.
Mae opsiwn llwybr troed B ac C yn mynd drwy 2 ystâd sy'n eiddo i'r preswylwyr, nid ydynt yn eiddo i'r Cyngor ac ni chysylltwyd â hwy. Mae angen cynnal ymgynghoriad ar y safle gyda chyfarwyddwyr y 2 ystâd hyn yn gyntaf. Mae rhai perchnogion yn gweithio i ffwrdd gyda'r lluoedd arfog ac yn rhentu eu heiddo dros dro. Dylai'r ddau gwmni gael y cyfle i gysylltu â pherchnogion o'r fath. Nid yw llythyr drwy'r drws yn cyrraedd pawb yr effeithir arnynt. Opsiwn A neu ddim byd fel y mae.	Yn ystod y cam dylunio cysyniad hwn, teimlwn fod yr ymgysylltu'n gymesur. Byddai unrhyw ddyluniad manwl pellach o opsiynau B ac C yn golygu cysylltu â pherchnogion tir yn uniongyrchol.
Byddai'n well gennyf reidio fy meic i'r gwaith ond mae'n mynd yn anoddach i'w wneud yn ddiogel. Byddai llwybr beicio yn gwneud i mi ystyried peidio â defnyddio car o gwbl.	Byddai adeiladu llwybr teithio llesol yn yr ardal hon yn galluogi pob defnyddiwr i gerdded a beicio yn ddiogel.
Na	Nid oedd angen ymateb.
Dd/B	Dd/B
Rwy'n un o drigolion XX Rowan Grove. Mae'r cynlluniau hyn y tu allan i'm tŷ. Rwyf wedi dewis A oherwydd nad yw y tu allan i'n tŷ ni. Mae B AC C y tu allan i'n tŷ ni.	Nid oedd angen ymateb.

<p>Ceisiwch beidio â gwneud y ffordd yn fwy cul gan fod hyn yn achosi problemau ynddo'i hun. Bydd beicwyr bob amser yn mynd ar y llwybr mwyaf uniongyrchol gyda'r lleiaf o ymyrraeth lle y gallai fod yn rhaid iddynt stopio ac ailgychwyn.</p>	<p>Cynhelir ymgynghoriad pellach ar y cynllun hwn pan fydd yr opsiwn llwybr a ffeirir wedi mynd drwy ddylunio manwl.</p>
<p>Nid yw preswylwyr am fwy o rwystrau i'w heiddo</p>	<p>Nodwyd hyn, a byddai unrhyw darfu ar breswylwyr yn cael ei gadw i'r lleiafswm.</p>
<p>Rwy'n teimlo mai Llwybr A sy'n tarfu leiaf. Mae'n llifo'n well o Sain Tathan heb fod angen croesi'r ffyrdd a fyddai'n gwneud y llwybrau arfaethedig eraill (B ac C) yn fwy peryglus i'w defnyddwyr. Ni fydd ychwaith yn effeithio ar y preswylwyr ar yr ystâd dai na'r parcio na cherbydau, sydd eisoes yn broblem yn yr ardal hon. Felly, mae'n amlwg mai Llwybr A yw'r opsiwn gorau.</p>	<p>Nodwyd.</p>
<p>A fydd darpariaeth ar gyfer marchogion ceffylau yn y cynlluniau? Mae nifer o farchogion ceffylau yn defnyddio'r ffyrdd a'r lonydd. Nid yw'r beicwyr yn defnyddio'r ffyrdd yn briodol wrth ddelio â cheffylau ar y ffyrdd.</p>	<p>Nid yw reidio ceffylau mewn gwahanol ffyrdd yn cael eu hystyried yn fathau o deithio llesol gan mai anaml y maen nhw'n disodli taith car.</p>
<p>Mae eisoes llwybrau ar gael i'w defnyddio. Rhowch linellau melyn dwbl ar y ffordd drwy Eglwys Brewys i atal ceir rhag parcio ar balmetydd (a rhowch arwyneb newydd ar y ffordd gyfan - mae angen gwneud hyn ers blynnyddoedd a blynnyddoedd, er ei bod yn amlwg yn anniogel oherwydd ei chyflwr)</p> <p><b>MAE GORMOD O WAITH FFORDD ERS MISOEDD YN YR ARDAL HON WEDI ACHOSI AFLONYDDWCH MAWR. NID OES ANGEN RHAGOR ARNOM</b></p>	<p>Archwiliwyd y ddarpariaeth bresennol ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn gynnar yn 2021 a barnwyd bod y llwybr yn 'fethiant critigol' ac felly mae angen gwelliannau.</p> <p>Mae'r cynllun yn cael ei ariannu drwy gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, felly ni allwn gwblhau gwaith ar y Priffyrdd. Pe bai'r cynllun yn mynd yn ei flaen, yna byddai cyn lleied â phosibl o darfu.</p> <p>O dan Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru 2021 (Llwybr Newydd) mae angen i ni flaenoriaethu dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth.</p> <div data-bbox="1037 1344 1500 1590"> <p><b>The Sustainable Transport Hierarchy</b></p> <p>We will continue to make best use of existing transport infrastructure by maintaining and managing it well.</p> <p>We will also adapt it to a changing climate and upgrade it to support modal shift.</p> <p>Where we need new infrastructure, we will use the Sustainable Transport Hierarchy.</p> </div>
<p>Mae Eglwys Brewys yn ystâd breifat. Pam ar y ddaear fyddai trigolion eisiau i bobl, beicwyr ac ati fynd heibio ffenestr eu hystafell flaen? Mae'n rhyfedd iawn bod y cynllunwyr hyd yn oed yn ystyried hyn. A fyddai'n rhaid i'r cyngor brynu'r tir? Gan fod hwn yn cael ei ystyried yn breifat ac nad yw'r cyngor hyd yn oed wedi mabwysiadu'r palmentydd. Ble mae'r synnwyr? Dwi'n byw ar y stad ac fydda i ddim yn hapus o gwbl. Cadwch barhad y llwybr drwy ei gadw ar ochr chwith y ffordd</p>	<p>Diben yr ymgynghoriad hwn yw gweld pa lwybr fyddai'n well gan ddarpar ddefnyddwyr. Pe bai'r llwybrau dewisol drwy'r ystâd dai, yna byddai'r gwaith mabwysiadu priffyrdd angenrheidiol yn digwydd.</p>
<p>Dylai'r cyngor ystyried llwybr traffig gweithredol i gysylltu Eagle Road â ffordd Mynediad y Gogledd gan fod yn rhaid i gerddwyr ar hyn o bryd dramwyo'r ffordd sy'n beryglus iawn gyda thro cas.</p>	<p>Nid yw Eagle Road yn dod o dan yr ardal a gwmpesir gan yr ymgynghoriad hwn. Mae llwybr teithio llesol ar hyd Ffordd Bro Tathan y gall trigolion o Eagle Road fynd arno i</p>

	gerdded/beicio i Lanilltud Fawr a/neu Sain Tathan.
Pryd bydd y cyngor yn rhoi beiciau yn lle ceir i staff?	Mae'r Cyngor yn rhedeg cynllun Beicio i'r Gwaith llwyddiannus bob blwyddyn ac mae fflyd o feiciau ar gael at ddefnydd busnes.

### **Argymhelliad**

**Bydd y Cyngor yn ymgymryd â dyluniad cysyniad o lwybr teithio llesol yn unol â'r cynnig a restrir fel Opsiwn A. Caiff hyn ei ariannu'n llawn gan grant Teithio Llesol Llywodraeth Cymru 2021/22 sydd wedi'i ddyfarnu.**